EnBW bp

Partners in UK offshore wind

# Prosiect Gwynt Alltraeth Mona

## Datganiad Ymgynghori Cymunedol

Prosiect Gwynt Alltraeth Mona



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | 03 |
| 1.1 | Trosolwg o'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol | 03 |
| **2** | **Y datblygiad arfaethedig** | 04 |
| 2.1 | Pam mae angen y datblygiad arfaethedig | 04 |
| 2.2 | Beth rydyn ni'n bwriadu ei adeiladu ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona | 05-06 |
| **3** | **Y broses gydsynio** | 08-09 |
| **4** | **Yr ymgynghori hyd yma** | 10 |
| **5** | **Ein hymgynghoriad statudol** | 11 |
| 5.1 | Trosolwg | 11 |
| 5.2 | Â phwy ydyn ni'n ymgynghori | 12 |
| 5.3 | Beth rydyn ni'n ymgynghori yn ei gylch | 13 |
| 5.4 | Pryd ydyn ni'n ymgynghori | 13 |
| 5.5 | Ble'r ydyn ni'n ymgynghori | 13-14 |
| 5.6 | Sut byddwn ni'n ymgynghori | 14-16 |
| 5.7 | Y Gymraeg | 16 |
| 5.8 | Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad | 17 |
| 5.9 | Grwpiau nas clywir yn aml | 17 |
| 5.10 | Ceisiadau am ddogfennau | 17 |
| **6** | **Cyflwyno adborth a beth sy'n digwydd nesaf** | 18 |
| 6.1 | Sut mae cyflwyno adborth | 18 |
| 6.2 | Beth sy'n digwydd nesaf | 18 |
| **7** | **Cysylltu â ni** | 19 |
| | **Atodiad 1** | |
| | Gwaith maes gyda Grwpiau Nas Clywir yn Aml | 20 |
| | **Atodiad 2** | |
| | Awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill yr ymgynghorir â nhw | 21-23 |


## Gwybodaeth am EnBW

Energie Baden-Württemberg AG (EnBW) yw un o'r cwmnïau cyflenwi ynni mwyaf yn yr Almaen ac Ewrop, gyda gweithlu o 27,000 o weithwyr yn cyflenwi ynni i tua 5.5 miliwn o gwsmeriaid. Bydd capasiti ynni adnewyddadwy gosodedig yn cyfrif am 50 y cant o bortffolio cynhyrchu EnBW erbyn diwedd 2025.

Roedd EnBW ymhlith yr arloeswyr ym maes ynni gwynt ar y môr gyda'i fferm wynt Baltig 1 ym Môr y Baltig. Mae EnBW wedi datblygu, adeiladu ac yn gweithredu pedair fferm wynt alltraeth yn yr Almaen gyda chyfanswm capasiti gosodedig o 945 MW.

Daw 960 MW arall o'r fferm wynt alltraeth He Dreiht sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd; cliriodd y penderfyniad buddsoddi terfynol ym mis Mawrth 2023 y ffordd ar gyfer dechrau adeiladu.

## Gwybodaeth am bp

Pwrpas bp yw ailddychmygu ynni ar gyfer pobl a'n planed.

Mae bp wedi nodi uchelgais i fod yn gwmni sero net erbyn 2050, neu'n gynt, a helpu'r byd i gyrraedd sero net.

Bydd y strategaeth hon gan bp yn ei weld yn trawsnewid ei hun o fod yn gwmni olew rhyngwladol sy'n cynhyrchu adnoddau i fod yn gwmni ynni integredig yn darparu datrysiadau i gwsmeriaid.

Mae gan bp fusnes gwynt ar y môr sylweddol yn yr Unol Daleithiau yn barod gyda chapasiti cynhyrchu gros o 1.7GW, gan weithredu naw ased gwynt ar draws y wlad yn ogystal â phibell alltraeth net 5.2GW.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Trosolwg o'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol

Ym mis Chwefror 2021, cafodd Energie Baden-Württemberg AG (EnBW) a bp Alternative Energy Investments Limited (bp) eu dewis gan Ystâd y Goron fel Cynigydd a Ffefrir ar gyfer dwy brydles 60-mlynedd yng Nghylch Prydlesu 4 Gwynt ar y Môr. Y prosiectau sydd i'w datblygu yn y ddwy ardal brydlesu, sydd wedi'u lleoli yn nwyrain Môr Iwerddon, yw Prosiect Gwynt Alltraeth Morgan a Phrosiect Gwynt Ar y Môr Mona.

Mae'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn yn nodi sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i gynnal yr ymgynghoriad statudol ynghylch Prosiect Gwynt Alltraeth Mona. Fe'i paratowyd yn unol ag Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008 (Deddf 2008). Mae adran 47(1) Deddf 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr 'baratoi datganiad sy'n nodi sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu ymgynghori, ynghylch y cais arfaethedig, gyda phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir'. Rydym wedi cyhoeddi'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn drwy hysbysiad cyhoeddus yn y Daily Post, papur newydd sy'n cylchredeg yng nghyffiniau'r prosiect, fel sy'n ofynnol yn ôl Adran 47 Deddf 2008.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro hyd a lled a natur yr ymgynghoriad cymunedol sy'n cael ei gynnal ac mae'n cynnwys:

- Crynodeb o'r datblygiad arfaethedig
- Gwybodaeth gyffredinol am y broses gydsynio
- Gwybodaeth am pam mae angen y prosiect
- Manylion ble a phryd y cynhelir yr ymgynghoriad ac â phwy yr ymgynghorir
- Sut y cynhelir yr ymgynghoriad, yn cynnwys y deunyddiau a gyhoeddir a gweithgareddau ymgysylltu eraill
- Ble gall pobl weld y deunyddiau ymgynghori a chael gwybod mwy
- Pwysigrwydd adborth gan bobl leol a sut y gallan nhw roi eu sylwadau

**Mae'r ymgynghoriad hwn ar waith rhwng 19 Ebrill 2023 a 4 Mehefin 2023.**

Mae'r ymgynghoriad yn gyfle pwysig i gymunedau lleol (gan gynnwys preswylwyr, busnesau, sefydliadau ac ymwelwyr) gymryd rhan a dylanwadu ar ein cynigion.

Mae'r Datganiad hwn wedi cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r awdurdodau lleol perthnasol – gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Fe'i cynlluniwyd i helpu aelodau'r cyhoedd i ddeall sut y gallant gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a beth y gallant ddylanwadu arno. Bydd yr holl adborth a gawn yn cael ei gofnodi a rhoddir ymateb iddo fel rhan o'n Hadroddiad Ymgynghori.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn dau ymgynghoriad anstatudol a gynhaliwyd yn ystod 2022 – ymgynghoriad rhagarweiniol, ac wedyn ymgynghoriad wedi'i dargedu yn gofyn am adborth ar leoliadau arfaethedig is-orsafoedd. Ceir manylion yr ymgynghoriadau hyn yn rhan 4 y datganiad hwn.

Mae'r prosiect hwn wedi'i ddynodi'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae hyn yn golygu, er mwyn cael cydsyniad datblygu, bod yn rhaid i ni gyflwyno cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, drwy'r Arolygiaeth Gynllunio.

Rydym yn disgwyl mai'r cam ymgynghori statudol hwn fydd yr ymgynghoriad olaf ar y prosiect cyfan cyn i ni gyflwyno ein cais am gydsyniad datblygu.

# 2 Y datblygiad arfaethedig

## 2.1 Pam mae angen y datblygiad arfaethedig

### Y frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd. Mae'n effeithio ar bob gwlad a rhaid i bob un ohonom chwarae rhan yn y frwydr.

Yn 2015, cyfarfu cynrychiolwyr o'r gymuned ryngwladol ym Mharis i gytuno ar ymateb byd-eang i'r newid yn yr hinsawdd. Yn gyfan gwbl, llofnododd 197 o wledydd Gytundeb Paris i sicrhau bod y cynnydd mewn tymheredd yn llawer llai nag 1.5ºC er mwyn osgoi effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd. Cyfarfu'r cynrychiolwyr eto yn Glasgow yn 2021, lle gwnaethant gytuno bod angen mwy o weithredu i gyflawni'r nod o 1.5ºC a gwnaethant addo i wneud y 2020au yn ddegawd o gefnogi a gweithredu ar newid yn yr hinsawdd.

### Polisïau Llywodraeth y DU a gwynt ar y môr

Mae'r ymrwymiadau y mae'r DU wedi'u gwneud i gyflawni sero net wedi'u hymgorffori mewn cyfraith.

Mae sero net yn golygu lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fel eu bod cyn agosed i sero â phosibl, gan ddal unrhyw allyriadau sy'n weddill drwy storio carbon naturiol a datblygu technolegau newydd i ddal carbon.

Mae cyflawni sero-net yn golygu peidio â chynyddu faint o nwyon tŷ gwydr sydd yn yr atmosffer. Y ffordd orau o wneud hyn yw symud at dechnolegau fel ynni adnewyddadwy, sydd ddim yn creu allyriadau niweidiol.

Er mwyn cyrraedd ein nodau hinsawdd, mae llywodraeth y DU wedi mabwysiadu nifer o strategaethau ar gyfer cyflawni sero net – yn fwyaf arbennig y cynllun 10-pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd a'r strategaeth Net Zero Strategy: Build Back Greener.

Yng Nghymru, y nod yw i ynni adnewyddadwy gynhyrchu 70 y cant o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru erbyn 2030. Mae hyn yn cael ei amlinellu gan Lywodraeth Cymru yn ei chynllun Sero Net.

Mae'r holl gynlluniau hyn yn cydnabod pwysigrwydd gwynt ar y môr o ran cyflawni nodau sero net yn y DU. Yn wir, 'hyrwyddo ynni gwynt ar y môr' yw pwynt un yng nghynllun 10 pwynt llywodraeth y DU.

Mae'r DU eisoes yn cynhyrchu tua 10GW o'i phŵer o ynni gwynt ar y môr, sy'n fwy nag unrhyw wlad arall yn y byd. Mae'n chwarae rhan gynyddol bwysig yn ein cymysgedd ynni – am gyfnod ar 21 Mai 2021, roedd ynni gwynt ar y môr yn darparu 62 y cant o gyfanswm ein cynnyrch ynni. Ond mae angen i ni wneud llawer iawn mwy.

Er mwyn cyflawni ein nodau hinsawdd, mae angen i ni gynyddu faint o ynni gwynt ar y môr rydym yn ei gynhyrchu bedair gwaith – sy'n golygu gosod a gweithredu capasiti 50GW erbyn 2030.

Dyna pam mae prosiectau fel Morgan a Mona mor bwysig.

## 2.2 Beth rydyn ni'n bwriadu ei adeiladu ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona

Er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal Mona, bydd angen cyfuniad o seilwaith ar y môr ac ar y tir arnom.

Capasiti arfaethedig Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yw 1.5GW.

### Seilwaith ar y môr

Bydd ein seilwaith ar y môr yn cynnwys tyrbinau gwynt, llwyfannau is-orsaf, ceblau allforio a glanfa.


Bydd y fferm wynt yn cynnwys hyd at 107 o dyrbinau gwynt. Bydd nifer terfynol y tyrbinau'n cael ei bennu ar sail ystyriaethau peirianyddol ac amgylcheddol, ynghyd ag adborth gan randdeiliaid.


Bydd llwyfannau is-orsaf ar y môr wedi'u lleoli yn ardal yr aráe. Byddant yn cynnwys yr offer sydd ei angen i drawsnewid trydan yn foltedd uwch ar gyfer ei gludo ar y tir.

Byddai ceblau wedyn yn trosglwyddo trydan o'r platfformau is-orsaf ar y môr i'r lanfa. Bydd y ceblau yng Nghoridor Ceblau ar y Môr Mona, ardal chwilio lle bydd y ceblau ar y môr yn cael eu gosod.

Rydyn ni'n disgwyl y byddai'r ceblau allforio o'r môr yn dod i'r lan yn Llanddulas.

Byddant yn cael eu gosod drwy'r ardal rynglanw i leoliad lle gellir eu cysylltu â'r seilwaith ar y tir.





## Seilwaith ar y tir

Bydd ein seilwaith ar y tir yn cario trydan o lanfa (sef lle mae'r ceblau ar y môr yn cyrraedd y lan) i'r rhwydwaith trawsyrru trydan. I wneud hyn, bydd angen i ni adeiladu seilwaith gan gynnwys ceblau tanddaearol, is-orsaf newydd ar y tir ger Bodelwyddan yn Sir Ddinbych, a chysylltiad â'r is-orsaf bresennol a nodwyd gan National Grid ar gyfer ein cysylltiad.

## Ein coridor ceblau ar y tir

Fel datblygwyr cyfrifol, rydym wedi ymrwymo i ddylunio llwybrau ceblau gan ystyried buddiannau pennaf ein cymunedau. Rydym yn ystyried llawer o ffactorau i wneud yn siŵr ein bod yn dod o hyd i'r ateb gorau posibl ar gyfer y prosiect a chymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys osgoi cyfyngiadau fel aneddiadau a seilwaith presennol, neu ardaloedd sy'n cael eu gwarchod am resymau amgylcheddol.

Ar gyfer ein prosiect, rydym hefyd yn defnyddio canllawiau gan sefydliadau arbenigol, fel Protocol Llwybrau Ceblau Ystâd y Goron a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydyn ni wedi nodi coridor yn Ardal Chwilio Coridor Ceblau Ar y Tir Mona. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y coridor ar y tir tua 15km o hyd, gyda cheblau fel arfer wedi'u claddu'n ddyfnach nag 1m o dan y ddaear.

Byddai'r ceblau'n rhedeg tua'r de o'r lanfa ac yn mynd i'r gorllewin o Abergele, cyn teithio tua'r dwyrain i Fodelwyddan.

## Ein his-orsaf

Mae angen is-orsaf bwrpasol ar y prosiect i ddal a rheoli'r offer sy'n trawsnewid y pŵer a gyflenwir gan y fferm wynt yn drydan y gellir ei ddefnyddio.

Bydd yr is-orsaf hefyd yn cynnwys yr offer ategol sydd ei angen ar gyfer ei gweithredu a'i chynnal a'i chadw hi.

Mae'r prosiect eisoes wedi cwblhau ymgynghoriad anstatudol wedi'i dargedu a oedd yn gofyn i gymunedau lleol a rhanddeiliaid ystyried rhestr o saith lleoliad posibl ar gyfer is-orsaf.

Defnyddiwyd adborth o'r ymgynghoriad hwn – yn ogystal â chanfyddiadau ein hasesiadau a'n hastudiaethau technegol manwl, sy'n parhau – i leihau nifer y lleoliadau posibl ar gyfer is-orsaf i ddau. Mae'r ddau ddewis hwn nawr yn destun ymgynghoriad pellach fel rhan o'r cam statudol hwn.


Bydd cynllun rheoli tirwedd, ecoleg a hydroleg yn cael ei baratoi ar gyfer safle'r is-orsaf ar y tir a fydd yn nodi'r mesurau lliniaru ar gyfer sgrinio, cynefinoedd ecolegol a rheoli dŵr ffo wyneb.

Bydd angen compownd adeiladu dros dro ac ardal waith er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu'r is-orsaf ar y tir.

Bydd safle terfynol yr is-orsaf ar y tir yn cael ei nodi gan ystyried canfyddiadau'r broses o Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol a'r adborth a gafwyd.

## Rheoli amgylcheddol

Bydd y gwaith adeiladu'n cael ei wneud yn unol â Chod Ymarfer Adeiladu. Bydd hyn yn cynnwys strategaethau a mesurau rheoli ar gyfer rheoli effeithiau amgylcheddol posibl y gwaith adeiladu a chyfyngu ar aflonyddwch o ganlyniad i weithgareddau adeiladu cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Cytunir ar y Cod Ymarfer Adeiladu ymlaen llaw gyda'r awdurdodau lleol perthnasol.




*Elfennau Prosiect Gwynt Alltraeth Mona*


B2 M1

# 3 Y broses gydsynio

## Mae Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn cael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ac felly rydyn ni'n bwriadu cyflwyno cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

Caiff ceisiadau am gydsyniad datblygu eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio a'u harchwilio ganddi, a gwneir penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol. Yn yr achos hwn, Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.

Penderfynir ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol gan ystyried Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol ar gyfer y datblygiad arfaethedig hwn yw'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni (EN-1), y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5). Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn nodi polisi cenedlaethol y bydd cynigion am brosiectau ynni mawr yn cael eu hasesu yn eu herbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'u penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Cyn cyflwyno cais, mae Deddf 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â chymunedau lleol ac ymgyngoreion statudol.

Mae ymwneud cynnar cymunedau lleol, awdurdodau lleol ac ymgyngoreion statudol yn caniatáu i ymgeisydd gael gwybodaeth bwysig am effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol a chyfleoedd posibl cynllun gan ymgyngoreion, fel y gellir ystyried mesurau lliniaru posibl a, lle bo'n briodol, eu cynnwys yn y prosiect cyn i gais gael ei gyflwyno.

Ar ôl cyhoeddi'r Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn, bydd Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn parhau i fynd drwy'r cyfnod datblygu, gan ddechrau drwy gyflawni'r ymgynghoriad statudol hwn.

Ar ôl cyflwyno ein cais, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn dilyn nifer o gamau i dderbyn ac adolygu'r cais, gan ofyn am sylwadau pellach gan gyrff ac unigolion sydd â diddordeb.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses gynllunio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ar gael yn: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/nodyn-cyngor-8-trosolwg-or-broses-cynllunio-seilwaith-o-arwyddocad-cenedlaethol-i-aelodaur-cyhoedd-a-phobl-eraill/

Gan y bydd y fferm wynt yn nyfroedd Cymru, mae angen i ni wneud cais am Drwydded Forol i adeiladu a gweithredu elfennau ar y môr y prosiect, o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Caiff ceisiadau eu penderfynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru: www.naturalresources.wales/permits-and-permissions/marine-licensing/?lang=cy

## Isod ceir crynodeb o sut mae'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn gweithio:

1 **Ymgynghoriad**
Mae'r prosiect yn hysbysu ac yn ymgynghori â'r cyhoedd, ymgyngoreion statudol a'r rheini sydd â buddiant yn y tir yr effeithir arno (yn unol ag adrannau 42, 47 a 48 o Ddeddf 2008) ynghylch ei gais arfaethedig, yn dilyn ymgynghoriad anstatudol cynharach.

2 **Cyflwyno**
Bydd y prosiect yn adolygu'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn cwblhau'r cynigion ar eu gwedd derfynol, gan ystyried yr adborth hwn. Cyflwynir cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu wedyn i'r Arolygiaeth Gynllunio, a fydd yn penodi'r Awdurdod Archwilio ar gyfer y cais.

3 **Derbyn**
Ar ôl cyflwyno'r cais, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn penderfynu a yw'n addas i'w archwilio.

4 **Rhag-archwilio**
Os caiff ei dderbyn i'w archwilio, bydd cyfle i bobl gofrestru eu diddordeb yn y cais gyda'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd unrhyw un sy'n cofrestru diddordeb yn cael gwybod am hynt y cais, gan gynnwys pryd a sut y gallant roi sylwadau. Bydd cyfarfod rhagarweiniol yn pennu'r amserlen ar gyfer y gwaith archwilio.

5 **Archwilio**
Mae'r gwaith archwilio'n para hyd at chwe mis. Bydd pobl sydd wedi cofrestru eu diddordeb yn gallu anfon eu sylwadau at yr Awdurdod Archwilio a gofyn am gael siarad mewn gwrandawiadau cyhoeddus.

6 **Penderfyniad**
Ar ôl y gwaith archwilio, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwneud argymhelliad ar y cais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Yn y pen draw, yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu a fydd Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn cael ei ganiatáu ai peidio.

# 4 Yr ymgynghori hyd yma

## Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n gynnar â chymunedau ac rydym eisoes wedi rhoi cyfle i bobl leol roi sylwadau ar y datblygiad arfaethedig.

Fe wnaethom gynnal cam cyntaf yr ymgynghoriad anstatudol rhwng 7 Mehefin a 3 Awst 2022. Yn yr ymgynghoriad hwn, cyflwynodd y prosiect ardaloedd chwilio ar gyfer y seilwaith trawsyrru ar y môr ac ardaloedd chwilio ar gyfer llwybrau'r ceblau a'r is-orsafoedd ar y tir.

Er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd ymgysylltu â'n cynigion yn gynnar, gwnaethom drefnu cyfres o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, a oedd yn cynnwys arddangosfeydd ffurfiol a digwyddiadau dros dro.

Cynhaliwyd digwyddiadau arddangos mewn lleoliadau cyfleus ar adegau a oedd yn caniatáu i bobl ymweld o gwmpas eu bywydau bob dydd, boed hynny'n waith, mynd â'r plant i'r ysgol neu ymrwymiadau eraill.

Cynhaliwyd digwyddiadau dros dro mewn ardaloedd lle gellid ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd wrth iddynt fynd o gwmpas eu bywydau, mewn lleoliadau a oedd yn caniatáu i bobl siarad â'r tîm yn sydyn ac yn hawdd.

Fe wnaethom hefyd drefnu ymgynghoriad ar-lein ar gyfer y rheini nad oeddent yn gallu mynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd hwn ar 12 Gorffennaf am 6:30pm. Cafodd recordiad ei wneud o'r sesiwn a'i ddarparu ar wefan y prosiect fel bod modd ei weld yn nes ymlaen.

Ar ôl i'r cam cyntaf hwn o'r ymgynghoriad ddod i ben, buon yn dadansoddi'r adborth a gafwyd, ynghyd â chynnal rhagor o asesiadau effaith technegol a gwaith dylunio i ddatblygu ein cynigion cyn ymgynghori ymhellach â'r cyhoedd. Bydd y sylwadau a gawn o ymgynghoriadau'r dyfodol hefyd yn cael eu defnyddio i ddatblygu ein cynigion terfynol.

Rhwng 26 Medi a 7 Tachwedd 2022 cynhaliwyd ail ymgynghoriad, wedi'i dargedu, a oedd yn canolbwyntio ar leoliadau posibl ar gyfer ein his-orsaf.

Unwaith eto, cynhaliwyd digwyddiadau arddangos mewn lleoliadau hwylus ac ar adegau a fyddai'n caniatáu i bobl fynychu ochr yn ochr â'u hymrwymiadau arferol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar-lein ar 12 Hydref am 6.30pm ac, unwaith eto, roedd recordiad o'r sesiwn ar gael ar wefan y prosiect.

Cafodd yr adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn ei gyfuno â'n hasesiadau amgylcheddol a'n hastudiaethau technegol sy'n parhau, i helpu i nodi'r safle rydyn ni'n ei ffafrio ar gyfer yr is-orsaf.

### Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Mae gofyn darparu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) ar gyfer y datblygiad, yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) a'r Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol). Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal i sicrhau bod effeithiau tebygol y datblygiad arfaethedig yn cael eu deall yn iawn, gan gynnwys a oes modd rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith. Felly, daw Datganiad Amgylcheddol ynghlwm wrth y cais, a fydd yn nodi canfyddiadau'r broses o Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol.

### Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol

Mae'n rhaid i ni hefyd lunio Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, sy'n ddogfen bwysig yn y broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu o ran ystyriaethau amgylcheddol.

Bydd yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn cynnwys methodolegau a chanlyniadau'r arolygon, ac effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol y datblygiad arfaethedig. Bydd hefyd yn nodi mesurau a allai atal, lleihau neu wrthbwyso unrhyw effeithiau amgylcheddol a nodwyd fel rhan o asesiadau ac ymgynghoriadau cynnar.

Bydd copïau o'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ar gael ar wefan y prosiect: www.morganandmona.com




# 5 Ein hymgynghoriad statudol

## 5.1 Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf 2008. Rydym yn disgwyl mai hwn fydd yr ymgynghoriad terfynol ynghylch y datblygiad cyfan cyn i EnBW a bp wneud cais am gydsyniad datblygu.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw helpu pobl sy'n byw yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig i'w ddeall ef ac unrhyw effeithiau y gallai eu cael.

Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl leol roi adborth pellach ar y datblygiad arfaethedig a dylanwadu arno.

Byddwn yn edrych yn ofalus ar yr holl adborth a gawn, a bydd yn cael ei ystyried i helpu i gwblhau ein cynigion yn derfynol cyn ein cais. Bydd yr holl adborth a gawn yn cael ei grynhoi yn ein Hadroddiad Ymgynghori, a fydd yn rhan bwysig o'n cais.

## 5.2 Â phwy ydyn ni'n ymgynghori

Wrth galon pob ymgynghoriad mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gymuned. Mae ymgynghori â phobl sy'n byw'n agos at y prosiect, y gallai'r datblygiad effeithio arnynt, yn rhan bwysig o broses gynllunio Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae Adran 47 y Ddeddf yn disgrifio'r rhain fel pobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir sy'n rhan o'r cais arfaethedig. Mae'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth leol a gawn drwy bob cam o'r ymgynghori yn golygu y gall ein prosiect adlewyrchu anghenion a disgwyliadau'r rheini sy'n byw ac yn gweithio agosaf.

Wrth ddatblygu'r parth postio deunydd cyhoeddusrwydd (gweler 5.5 isod) roeddem wedi gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried yr angen i ymgysylltu â thrawstoriad eang o gymdeithas. Bydd ein hymgynghoriad yn agored i unrhyw un sy'n teimlo bod y cynigion yn effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Byddwn yn gwneud ein gorau i ymgysylltu â'r bobl a'r grwpiau canlynol:

- **Cymunedau lleol** – pobl â chartrefi a busnesau yn yr ardal ymgynghori a'r rheini o'r tu allan sydd wedi gwneud sylwadau ar y cynigion o'r blaen;
- **Cynrychiolwyr etholedig** – cynghorau cymuned; cynghorwyr sir; Aelodau Seneddol; ac Aelodau o Senedd Cymru;
- **Grwpiau nas clywir yn aml** – unigolion a grwpiau a allai ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn y broses ymgynghori am amrywiaeth o resymau. Byddwn yn monitro cyfleoedd ac yn ymgysylltu fel y bo'n briodol. Os bydd angen, byddwn yn addasu ein hymgynghoriad anstatudol wedi'i dargedu er mwyn cyrraedd y cynulleidfaoedd hyn yn well;
- **Grwpiau diddordeb arbennig sydd wedi'u nodi** – fel grwpiau bywyd gwyllt, treftadaeth a hamdden lleol

### Ymgyngoreion ychwanegol

Yn ogystal â'r gofynion statudol sydd wedi bod yn sail i baratoi a chyhoeddi'r Datganiad hwn, o dan Ddeddf 2008 mae'n ofynnol ymgynghori â nifer o grwpiau ychwanegol.

- **ad42: Cyrff rhagnodedig ac ymgyngoreion statudol**

  Cyrff rhagnodedig fel y'u rhestrir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2009 (fel y'u diwygiwyd).

  Ymhlith eraill, mae'r cyrff rhagnodedig y mae'n rhaid ymgynghori â hwy yn cynnwys yr holl gynghorau cymuned y mae'r cynigion wedi'u lleoli yn eu hardal.

- **ad43: Awdurdodau lleol**

  Awdurdodau lleol, fel y'u diffinnir o dan adran 43, gan gynnwys y rheini y mae'r cynigion wedi'u lleoli yn eu hardal, ac awdurdodau lleol cyfagos.

  Mae rhestr lawn o'r ymgynghoreion hyn, a grwpiau diddordeb eraill y mae'r prosiect wedi'u nodi ac y bydd yn ymgynghori â hwy, ar gael yn Atodiad 2.

- **ad44: Perchnogion tir/rhai sydd â buddiant yn y tir**

  Y rheini sydd â buddiant yn y tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef, neu hawliad perthnasol iddo (fel perchnogaeth, tenantiaeth a/neu fuddiannau eraill).

  Pob person y nodwyd bod ganddo fuddiant yn y tir y mae'r cynigion yn ymwneud ag ef, o fewn un neu ragor o'r categorïau a nodir yn adran 44.

Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r ymgyngoreion hyn a byddwn yn eu gwahodd i roi sylwadau ar ein cynigion yn ystod yr ymgynghoriad. Byddwn wedyn yn ystyried eu hadborth ochr yn ochr â'r adborth a gawn gan y cyhoedd.

Mae EnBW a bp wedi bod yn cysylltu, a byddant yn parhau i gysylltu, â thirfeddianwyr a meddianwyr i drafod a cheisio cytuno ar hawliau i adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r offer newydd ar y tir, yn wirfoddol.

Os nad yw'r prosiect yn gallu dod i gytundeb, gall geisio defnyddio pwerau caffael gorfodol fel rhan o'r cais a gyflwynwyd am gydsyniad datblygu.

## 5.3 Beth rydyn ni'n ymgynghori yn ei gylch

Rydym eisoes wedi bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â chymunedau a rhanddeiliaid lleol ond bydd y cyfnod ymgynghori statudol yn dechrau ar ôl cyhoeddi'r Datganiad hwn.

Ein dull o ymgysylltu ac ymgynghori yw ceisio adborth cyffredinol ar y cynigion, gan gynnwys canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Lleoliad ac aráe ein tyrbinau gwynt ar y môr a'r seilwaith cysylltiedig
- Ein llwybr arfaethedig ar gyfer ceblau ar y tir
- Safle arfaethedig ein his-orsaf
- Sut gallwn ni leihau ein heffeithiau adeiladu
- Ein Hadroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol

## 5.4 Pryd ydyn ni'n ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad statudol yn rhedeg rhwng **19 Ebrill 2023 a 4 Mehefin 2023.**

Y cyfnod ymgynghori lleiaf yw 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod ar ôl cyhoeddi dogfennau ymgynghori, fel yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol.

Rydym yn ymestyn y cyfnod hwn er mwyn rhoi cymaint o gyfle â phosibl i bobl roi adborth.

Mae rhagor o fanylion am ein hymgynghoriadau blaenorol a hynt y prosiect y tu hwnt i'r pwynt hwn ar gael yn Adran 4 (Yr ymgynghori hyd yma) ac Adran 6 (Cyflwyno adborth a beth sy'n digwydd nesaf).


## 5.5 Ble'r ydyn ni'n ymgynghori


Yn yr ymgynghoriad anstatudol, gwnaethom ymgynghori mewn prif barth a nodwyd yn bennaf gan yr ardal chwilio ar gyfer seilwaith ar y tir ond hefyd drwy ystyried effeithiau gweledol posibl y tyrbinau eu hunain.

Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi nodi prif barth sy'n adlewyrchu effeithiau uniongyrchol tebygol y prosiect. Mae map o'r prif barth hwn ar gael isod.

Bydd gweithgareddau ymgynghori â'r gymuned yn parhau i ganolbwyntio ar y parth hwn ac rydym yn ymgysylltu â'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

Anfonir cerdyn post ymgynghori i'r holl gyfeiriadau preswyl a busnes yn y prif barth a chynhelir digwyddiadau arddangos yn y lleoliadau mwyaf priodol a chyfleus i'r rhai yn yr ardal. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at unrhyw un a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad cyntaf.






Rydym yn deall y gallai fod diddordeb yn y datblygiad arfaethedig y tu hwnt i'r prif barth cyhoeddusrwydd, yn enwedig o ran effeithiau gweledol posibl seilwaith ar y môr.

Felly, bydd y prosiect yn cael ei hyrwyddo y tu hwnt i'r parth postio cyhoeddusrwydd drwy hysbysebion a datganiadau i'r wasg mewn papurau newydd lleol sydd â chylchrediad ehangach na'r parth ymgynghori, er enghraifft, y Daily Post, sy'n cylchredeg ar draws Gogledd Cymru. Ochr yn ochr â'r ymgyrch gyhoeddusrwydd hon, byddwn yn parhau i ymgysylltu â chynghorau cymuned ac awdurdodau lleol, y mae eu ffiniau gweinyddol yn ymestyn y tu hwnt i'r prif barth cyhoeddusrwydd.

Bydd eu cefnogaeth yn sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei chodi y tu hwnt i ymylon ein prif ardal ymgynghori.

Bydd yr holl wybodaeth ar gael hefyd ar wefan y prosiect www.morganandmona.com

# 5.6 Sut byddwn ni'n ymgynghori

Byddwn yn ymgynghori gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn egluro'n cynigion ac annog pobl i roi eu sylwadau.

## Deunyddiau cymunedol

Bydd y deunyddiau hyn yn helpu pobl i ddeall y datblygiad arfaethedig a rhoi eu sylwadau i'r ymgynghoriad. Byddant yn hawdd eu dilyn a, lle bo'n briodol, byddant yn gwneud defnydd cryf o ddelweddau a graffeg.

- **Cerdyn post yr ymgynghoriad** – bydd y cerdyn post dwy ochr A5 hwn yn cael ei anfon i bob cyfeiriad preswyl a busnes yn y parth postio cyhoeddusrwydd. Bydd yn tynnu sylw at ddyddiadau'r ymgynghoriad ac yn egluro'n glir ble gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth, gan ganolbwyntio ar annog pobl i ymweld â'r wefan neu gysylltu â ni drwy sianeli gwybodaeth y prosiect. Bydd manylion digwyddiadau arddangos yr ymgynghoriad hefyd yn cael eu cynnwys.
- **Gwefan** – y wefan (www.morganandmona.com) fydd y brif ffynhonnell gyhoeddus o wybodaeth a bydd yn cael ei diweddaru i esbonio'r cynigion diweddaraf. Bydd y wefan yn egluro sut y gall pobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a beth yw'r dyddiad cau ar gyfer adborth. Bydd yn cynnwys map adborth rhyngweithiol o'r cynigion a ffurflen adborth.
Bydd holl ddeunyddiau'r prosiect ar gael hefyd ar y wefan.
- **Cylchlythyr** – bydd cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i bob cartref yn yr ardal ymgynghori, gan egluro ein cynlluniau ar gyfer ymgynghori a nodi sut i gymryd rhan.
- **Llyfryn yr ymgynghoriad** – bydd y llyfryn hwn yn rhoi crynodeb o'r cynigion diweddaraf a manylion yr ymgynghoriad. Bydd yn egluro sut y gall pobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a beth yw'r dyddiad cau ar gyfer adborth. Bydd y llyfryn ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori, ar gais gan dîm y prosiect a bydd ar gael ar y wefan.
- **Ffurflen adborth** – bydd yr holiadur hwn yn ffordd hawdd i bobl gofnodi a chyflwyno eu hadborth. Bydd pobl yn gallu cyflwyno adborth drwy lenwi'r ffurflen wedi'i hargraffu, neu drwy ymweld â gwefan ein prosiect a llenwi'r ffurflen ar-lein. Bydd y ffurflen adborth yn cael ei dylunio i annog pobl i roi adborth sy'n benodol i'n cynigion ond hefyd i ddarparu adborth ehangach mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig yn ei gyfanrwydd.

Bydd amrywiaeth o ddeunyddiau eraill, gan gynnwys yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, ar gael hefyd i helpu pobl i ddeall ein cynigion yn well a rhoi eu hadborth i ni.







## Digwyddiadau cymunedol

Er mwyn rhoi cyfle i bobl leol gwrdd â thîm y prosiect, deall y cynigion yn well a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt, cynhelir digwyddiadau ymgynghori yn yr ardal leol. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu trefnu mewn cymunedau sy'n agos at y seilwaith ar y tir.

Cynhelir dau fath o ddigwyddiad:

- **Digwyddiadau ymgynghori** – cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus i bobl ymweld â nhw a chwrdd â thîm y prosiect, cael gwybod am y prosiect a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.

  Bydd y digwyddiadau wedi'u lleoli mewn lleoliadau cyhoeddus hygyrch. Bydd deunyddiau'r prosiect ar gael yn y digwyddiad a bydd pobl yn gallu cyflwyno adborth.
- **Digwyddiadau achlysurol** – bydd aelodau o'n tîm hefyd yn mynd allan i'r cymunedau, er mwyn darparu gwybodaeth am y prosiect ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan bobl. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal mewn ardaloedd lle mae pobl yn gwneud eu gweithgareddau bob dydd fel archfarchnadoedd, canolfannau siopa, lleoliadau hamdden a chanolfannau trafnidiaeth.

Cynhelir y digwyddiadau, y rhoddir cyhoeddusrwydd iddynt yn y cerdyn post, drwy hysbysebion print ac ar wefan y prosiect, yn y lleoliadau ac ar yr amseroedd a restrir gyferbyn.

Byddwn hefyd yn cynnal gweminar ar-lein. Rhoddir cyhoeddusrwydd i hyn mewn deunyddiau ymgynghori a bydd pobl yn gallu cofrestru ar-lein. Bydd y weminar yn cynnwys cyflwyniad cyffredinol am y prosiect a sesiwn holi ac ateb, gydag amrywiaeth o aelodau tîm y prosiect ar gael i ateb cwestiynau.

Mae'n well gennym gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Ond os na fyddwn yn gallu cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb, byddwn yn gwneud trefniadau eraill i ddarparu amrywiaeth ehangach o ddigwyddiadau ymgynghori ar-lein.

## Lleoliadau deunyddiau cyfeirio

Bydd copïau wedi'u hargraffu o'n Datganiad a'n deunyddiau ymgynghori ar gael i'w gweld yn y lleoliadau a ddangosir yn y tabl. Ffoniwch eich lleoliad agosaf i weld yr amseroedd agor diweddaraf.

### Digwyddiadau ymgynghori

Digwyddiadau galw heibio yw'r rhain, sy'n golygu y gallwch ddod draw unrhyw bryd rhwng yr oriau a nodir isod. Bydd deunyddiau wedi'u hargraffu ac aelodau o dîm y prosiect yno er mwyn i chi siarad â nhw a chael rhagor o wybodaeth.

Edrychwch ar **www.morganandmona.com** cyn dod i ddigwyddiad ymgynghori rhag ofn y bydd unrhyw newidiadau annisgwyl.

| Lleoliad | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| **Neuadd Bentref Llanddulas**<br>Beulah Avenue, Llanddulas, Abergele LL22 8FH | Dydd Iau<br>4 Mai | 3pm i<br>7pm |
| **Eglwys Sant Asa Llanelwy**<br>1 Stryd Fawr, Llanelwy LL17 0RG | Dydd Gwener<br>5 Mai | 3pm i<br>6pm |
| **Neuadd y Dref Ramsey**<br>Parliament Square, Ramsey, Ynys Manaw IM8 1RT | Dydd Iau<br>18 Mai | 3pm i<br>7pm |
| **Neuadd Bentref Bodelwyddan**<br>Ronaldsway, Bodelwyddan, Y Rhyl LL18 5TE | Dydd Gwener<br>19 Mai | 3pm i<br>7pm |
| **Cyngor Bwrdeistref Douglas**<br>Douglas Town Hall, Ridgeway Street, Douglas, Ynys Manaw IM99 1AD | Dydd Gwener<br>19 Mai | 3pm i<br>7pm |
| **Neuadd Owen**<br>Cefn Meiriadog, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0EY | Dydd Sadwrn<br>20 Mai | 10am i<br>1pm |

### Digwyddiadau achlysurol

Mae'r rhain yn ddigwyddiadau ar raddfa lai mewn ardaloedd prysur, ond maen nhw'n dal yn ffordd wych o gwrdd â thîm y prosiect a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.

| Lleoliad | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| **Llyfrgell Llandudno**<br>Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2RP | Dydd Mercher<br>3 Mai | 2pm i<br>5pm |
| **Canolfan Groeso'r Rhyl**<br>Y Pentref Plant, Promenâd y Gorllewin, Y Rhyl LL18 1HZ | Dydd Iau<br>4 Mai | 10am i<br>1pm |
| **Llyfrgell Amlwch**<br>Lôn Parys, Amlwch LL68 9AB | Dydd Sadwrn<br>6 Mai | 10am i<br>12pm |

### Ymholiadau a gwybodaeth

Bydd y prosiect yn gweithredu gwasanaeth peiriant ateb ar linell ymholiadau radffôn yn ystod yr ymgynghoriad. Bydd pobl yn gallu gadael neges a bydd aelod o dîm y prosiect yn ymateb yn gyflym. Mae pobl yn gallu ymgysylltu â'r holl sianeli hyn yn Gymraeg.

Mae cyfeiriad e-bost pwrpasol a rhadbost ar gael hefyd.

- **Rhadffôn** – 0800 860 6263
- **E-bost** – info@monaoffshorewind.com
- **Rhadbost** – Rhadbost MONA

## 5.7 Y Gymraeg

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn hygyrch i'r rheini sy'n dymuno cymryd rhan yn Gymraeg. Bydd yr holl ddeunyddiau cymunedol ar gael yn Gymraeg a bydd siaradwyr Cymraeg ar gael ym mhob digwyddiad ymgynghori a gweminar.

Bydd pobl yn gallu rhoi adborth yn Gymraeg a byddant yn cael cydnabyddiaeth yn Gymraeg.

At ddibenion dadansoddi ac adrodd ar adborth Cymraeg ochr yn ochr ag ymatebion eraill, bydd adborth Cymraeg yn cael ei gyfieithu gan asiantaeth gyfieithu benodedig y prosiect (sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru).

Os bydd ymholiad yn cael ei gyflwyno dros y ffôn, bydd aelod o'r tîm sy'n siarad Cymraeg yn ymateb i'r unigolyn hwnnw.

### Lleoliadau adneuo

Mae'r rhain yn lleoliadau hygyrch i'r cyhoedd lle gellir gweld copïau wedi'u hargraffu o'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol, llyfryn yr ymgynghoriad, PEIR NTS a ffurflen adborth.

**Ynys Manaw**

| Lleoliad cyfeirio | Oriau agor |
|---|---|
| **Llyfrgell Henry Bloom Noble**<br>8 Duke Street, Douglas,<br>Ynys Manaw IM1 2AY | Llun-Mercher a Gwener: 8:30am hyd 5pm<br>Iau: 10am hyd 7pm<br>Sadwrn: 9am hyd 4pm |
| **Llyfrgell y Dref Ramsey**<br>Parliament Square, Ramsey,<br>Ynys Manaw IM8 1RT | Llun-Iau a Sadwrn: 9am hyd 4.30pm<br>Gwener: 9am hyd 4pm |

**Gogledd Cymru**

| Lleoliad cyfeirio | Oriau agor |
|---|---|
| **Llyfrgell Amlwch**<br>Lôn Parys, Amlwch LL68 9EA | Mawrth: 9:30am hyd 12:30pm a 2pm hyd 5pm<br>Mercher: 9:30am hyd 12:30pm<br>Iau: 2pm hyd 7pm<br>Gwener: 9:30am hyd 12:30pm<br>Sadwrn: 9:30am hyd 12:30pm |
| **Llyfrgell Gyhoeddus Bangor**<br>Ffordd Gwynedd,<br>Bangor LL57 1DT | Llun-Mawrth: 9.30am hyd 6.30pm<br>Mercher-Gwener: 9.30am hyd 5pm<br>Sadwrn: 9.30am hyd 1pm |
| **Llyfrgell Llandudno**<br>Stryd Mostyn,<br>Llandudno LL30 2RP | Llun-Mercher a Gwener: 9am hyd 5:30pm<br>Iau: 10am hyd 7pm<br>Sadwrn: 9:30am hyd 3pm |
| **Llyfrgell y Rhyl**<br>Stryd yr Eglwys,<br>Rhyl LL18 3AA | Llun: 9:30am hyd 6pm<br>Mawrth-Gwener: 9:30am hyd 5pm<br>Sadwrn: 9:30am hyd 12:30pm |

### Digwyddiad ar-lein

Os na allwch chi fynd i ddigwyddiad wyneb yn wyneb, gallwch gofrestru i ddod i'n digwyddiad ar-lein drwy sganio'r cod QR isod, neu drwy fynd i **www.morganandmona.com**. Bydd y digwyddiad hwn yn cynnwys cyflwyniad gan dîm y prosiect a sesiwn holi ac ateb.

| Lleoliad | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| Bydd y digwyddiad ar-lein hwn yn cael ei gynnal ar Zoom | Mawrth 9 Mai | 6pm i 7pm |

## 5.8 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad

- **Hysbysebu** – bydd y prosiect yn cynnal dau gylch hysbysebu yn y cyfryngau lleol – wrth lansio'r prosiect a phythefnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben, gan annog pobl i gymryd rhan. Bydd hyn yn cynnwys hysbysebion print mewn papurau newydd lleol megis y Daily Post. Byddwn hefyd yn hysbysebu ar-lein, gan ddefnyddio llwyfannau cyfryngau lleol a Google.
- **Datganiadau i'r wasg** – bydd datganiadau newyddion yn cael eu cyhoeddi i'r cyfryngau lleol yn ystod yr ymgynghoriad. Cyhoeddir datganiad i'r wasg ar ddechrau'r ymgynghoriad a phythefnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben, gan annog pobl i gymryd rhan.
- **Cyfryngau cymdeithasol** – hyrwyddo'r ymgynghoriad ar sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n eiddo i EnBw a bp ac sy'n cael eu rheoli ganddynt.
- **Hysbysiadau cyhoeddus** – bydd y prosiect hefyd yn cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf 2008.
- **Posteri** – byddant yn cael eu hargraffu a'u dosbarthu i'w harddangos drwy gynghorau lleol, lleoliadau sy'n cynnal digwyddiadau a lleoliadau lleol eraill fel archfarchnadoedd, siopau a llyfrgelloedd.
- **Llythyrau** – bydd y rhain yn cael eu hanfon at randdeiliaid allweddol, gan gynnwys cynghorwyr lleol, yn eu gwahodd i gymryd rhan ac i annog eraill i wneud hynny. Anfonir llythyrau hefyd at grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol eraill.

## 5.9 Grwpiau nas clywir yn aml

Er mwyn caniatáu i bobl ymgysylltu â'r ymgynghoriad fel sy'n hwylus iddyn nhw, mae'r prosiect wedi llunio ymgynghoriad 'digidol yn gyntaf'. Mae hyn yn caniatáu i unigolion a grwpiau gymryd rhan hyd yn oed os na allant ddod i ddigwyddiad ymgynghori. Bydd y weminar ar-lein yn agored i unrhyw un ddod i'r digwyddiad a gofyn cwestiynau i dîm y prosiect. Bydd yr holl wybodaeth ar gael ar y wefan ac anogir pobl i gyflwyno adborth gan ddefnyddio'r map adborth ar-lein neu'r ffurflen adborth ar-lein. Bydd y rheini sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad yn gallu gofyn cwestiynau a chael gwybod mwy drwy ffonio'r llinell ymholiadau neu ddefnyddio'r cyfeiriadau rhadbost neu e-bost.

I'r rheini sy'n llai cyfforddus yn ymgysylltu'n ddigidol, rydyn ni wedi datblygu'r ymgynghoriad i fod yn hygyrch ac mae hyn wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau ymgynghori.

Mae digwyddiadau cymunedol yn cael eu cynnal mewn lleoliadau cyhoeddus hygyrch a thros nifer o ddiwrnodau i annog presenoldeb. Mae sicrhau bod lleoliadau'n hygyrch drwy drafnidiaeth gyhoeddus, bod digon o le parcio a'u bod yn hawdd eu defnyddio yn allweddol.

Rydym yn cydnabod y gall rhai unigolion a grwpiau ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn y broses ymgynghori am amrywiaeth o resymau. Rydym wedi nodi nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml yn yr ardal (Atodiad 1). Byddwn yn ysgrifennu at y sefydliadau hyn ar ddechrau'r ymgynghoriad. Bydd ceisiadau am unrhyw weithgaredd penodol yn cael eu cynllunio a'u cytuno gyda'r sefydliad sy'n gwneud y cais er mwyn i'n gweithgareddau ateb anghenion y rhai y mae'r sefydliad yn eu cynrychioli yn y ffordd orau.

## 5.10 Ceisiadau am ddogfennau

Byddwn yn ymateb i geisiadau rhesymol gan bobl am ragor o gopïau o ddogfennau ymgynghori. Bydd ceisiadau am gopïau caled yn cael eu hadolygu fesul achos.

Efallai y bydd tâl copïo rhesymol yn cael ei godi, i'w dalu gan y derbynnydd ymlaen llaw.

# 6 Cyflwyno adborth a beth sy'n digwydd nesaf

## 6.1 Sut mae cyflwyno adborth

Mae'r ymgynghoriad yn gyfle pwysig i gymunedau lleol gymryd rhan a dylanwadu ar y cynigion a helpu'r prosiect i ddeall effeithiau'r cynigion er mwyn creu cyfleoedd i liniaru'r rhain. Mae'r ymgynghoriad hwn ar waith rhwng 19 Ebrill 2023 a 4 Mehefin 2023.

Mae sawl ffordd o gyflwyno adborth:

- **Map adborth** – mae'r map rhyngweithiol hwn o'r cynigion yn caniatáu i bobl ollwng pin a gadael sylwadau ar-lein a / neu atodi ffeiliau (fel dogfen neu ddelweddau) i'w hadborth.
- **Ffurflen adborth** – ar gael ar wefan y prosiect www.morganandmona.com, mewn digwyddiadau cymunedol neu ar gais oddi wrth y tîm ymgynghori.
- **Drwy e-bost** – at info@monaoffshorewind.com.
- **Yn ysgrifenedig** – i **Rhadbost MONA** (cofiwch nad oes modd anfon post cofrestredig i gyfeiriad rhadbost).

Bydd pawb a fydd yn cyflwyno eu sylwadau i ni (ac yn nodi eu manylion cyswllt) yn cael cydnabyddiaeth bod eu hadborth wedi dod i law.

Nid ydym yn gallu ymateb yn unigol i bob cwestiwn, ond bydd y themâu a'r materion a godir yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn cael eu crynhoi yn ein Hadroddiad Ymgynghori, a fydd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'n cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

Byddwn yn ymateb i ymholiadau a ddaw i law am logisteg yr ymgynghoriad ei hun, manylion y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal, y deunyddiau ymgynghori sydd ar gael neu gyngor ar sut i gyflwyno ymateb. Mae'r prosiect yn cymryd preifatrwydd data o ddifrif a bydd yr holl ddata'n cael ei gadw yn unol ag arferion gorau GDPR.

## 6.2 Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, byddwn yn edrych yn ofalus ar yr holl adborth rydym wedi'i gael ac, ynghyd â rhagor o waith technegol, byddwn yn cwblhau ein cynigion.

Os bydd y prosiect, o ganlyniad i'r adborth, yn newid i'r graddau bod angen cynnal ymgynghoriad pellach, bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Datganiad hwn ac yn cael ei dargedu'n ddaearyddol fel sy'n briodol i'r newid.

Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gynhyrchu sy'n nodi sut mae adborth o ymgynghoriadau statudol ac anstatudol wedi siapio dyluniad y datblygiad arfaethedig.

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys sut cafodd yr adborth hwn ei ystyried a sut y gellid ei ddefnyddio. Bydd yn manylu ar y broses ymgynghori, gan ddangos sut y cafodd ei chynnal yn unol â'r Datganiad hwn, a sut roedd yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol.

Bydd hefyd yn dangos sut y gwnaethom weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod ein hymgynghoriad yn gymesur ac wedi'i deilwra i gymunedau lleol sy'n byw yng nghyffiniau'r prosiect.

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Felly, gellir cyflwyno unrhyw sylwadau a dderbynnir oddi wrth ymgyngoreion i'r Arolygiaeth Gynllunio naill ai'n rhannol neu yn eu cyfanrwydd gyda'r cais.

Ar ôl i'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu gael ei gyflwyno a'i dderbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio, byddwn yn hysbysebu bod y cais wedi cael ei gyflwyno a'i dderbyn, gan egluro'r camau nesaf yn y broses.

### Amserlen Ddangosol

**2022/23**

**Haf 2022**
Cam cyntaf yr ymgynghoriad ar Brosiect Gwynt Alltraeth Mona (anstatudol)

**Hydref 2022**
Gwaith technegol ac amgylcheddol parhaus

Ymgynghoriad ar is-orsaf ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona

**Gwanwyn 2023**
Ail gam yr ymgynghoriad (statudol)

**2024**

**Ch1 2024**
Cyflwyno ceisiadau am Orchymyn Cydsyniad Datblygu a thrwyddedau eraill

**2025**

Disgwyl penderfyniad ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol

**2026**

Disgwylir y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol

**2027**

Cysylltiad grid cyntaf i gomisiynu is-orsafoedd ar y môr i allforio pŵer

**2028/29**

Dyddiad Dechrau Disgwyliedig – Dyddiad Gweithredu Masnachol



# 7 Cysylltu â ni

Drwy gydol y prosiect hwn, byddwn yn ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid i sicrhau bod y prosiect yn parhau i ddatblygu a mynd rhagddo mewn ffordd sy'n galluogi pobl i ymgysylltu yn y ffordd fwyaf ystyrlon.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y Datganiad Ymgynghori Cymunedol hwn, os hoffech chi gael dogfennau mewn fformatau eraill, os oes gennych chi gwestiynau am ein prosiect hyd yma neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, gallwch chi gysylltu â ni drwy'r sianeli canlynol.

Gan ddefnyddio gwefan ein prosiect:
**www.morganandmona.com**
neu ddefnyddio y cod QR hwn

Ffôn:
**0800 860 6263**

E-bost:
**info@monaoffshorewind.com**

Post:
**Rhadbost MONA**

# Atodiad 1 – Gwaith maes gyda Grwpiau Nas Clywir yn Aml

Age Connects Cymru

Age UK Gwynedd

Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd

FDF (Fforwm Anabledd Sir y Fflint gynt)

Stand North Wales (CIC)

Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn

Gwasanaeth Ieuenctid Conwy

Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych

Darpariaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint

Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

Y Gwasanaeth Ieuenctid

Cymdeithas Pobl Fyddar Gogledd Cymru

Gwasanaethau Digartrefedd, Tai Gogledd Cymru

Banc Bwyd Eglwys Gadeiriol Bangor

Banc Bwyd Arfon

Ysbyty Glan Clwyd

Ysbyty Cyffredinol Llandudno

Ysbyty Treffynnon

Coleg Brenhinol y Nyrsys (Gogledd Cymru)

Coleg Llandrillo

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

DPIA (mudiad cenedlaethol)

Canolfan Ddiwylliannol Islamaidd a Masjid y Rhyl

Canolfan Encilio Chabad a Synagog

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Cymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych

Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CVSC)

# Atodiad 2 – Awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill yr ymgynghorir â nhw

**Awdurdodau Cynllunio Lleol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ddinbych

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Sir Ynys Môn

**Aelodau o Senedd Cymru**

Aelod o'r Senedd dros Aberconwy

Aelod o'r Senedd dros Arfon

Aelod o'r Senedd dros Orllewin Clwyd

Aelod o'r Senedd dros Ddelyn

Aelod o'r Senedd dros Ogledd Cymru

Aelod o'r Senedd dros Ddyffryn Clwyd

Aelod o'r Senedd dros Wrecsam

Aelod o'r Senedd dros Ynys Môn

**Aelodau Seneddol**

Aelod Seneddol Aberconwy

Aelod Seneddol Alun a Glannau Dyfrdwy

Aelod Seneddol Arfon

Aelod Seneddol Gorllewin Clwyd

Aelod Seneddol Delyn

Aelod Seneddol Dyffryn Clwyd

Aelod Seneddol Ynys Môn

**Adrannau Llywodraeth Cymru**

Yr Adran Seilwaith

Yr Adran Drafnidiaeth

Y Gangen Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd

Swyddogion Gorfodi Morol

Materion Morol a Physgodfeydd

Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth

**Cynghorau Cymuned**

Cyngor Tref Abergele

Cyngor Cymuned Amlwch

Cyngor Cymuned Bagillt

Cyngor Dinas Bangor

Cyngor Tref Bae Colwyn

Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos

Cyngor Cymuned Bodelwyddan

Cyngor Cymuned Brynffordd

Cyngor Cymuned Caerwys

Cyngor Cymuned Cefnmeiriadog

Cyngor Tref Cei Connah

Cyngor Tref Conwy

Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn

Cyngor Cymuned Dyserth

Cyngor Cymuned y Fflint

Cyngor Cymuned Helygain

Cyngor Tref Caergybi

Cyngor Cymuned Bae Cinmel a Thowyn

Cyngor Cymuned Llanasa

Cyngor Cymuned Llanbadrig

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cyngor Cymuned Llanddona

Cyngor Cymuned Llanddulas

Cyngor Cymuned Llanddyfnan

Cyngor Tref Llandudno

Cyngor Cymuned Llandygái

Cyngor Cymuned Llaneilian

Cyngor Cymuned Llanfachraeth

Cyngor Cymuned Llanfaethlu

Cyngor Cymuned Llanfairfechan

Cyngor Cymuned Llanfair Talhaearn

Cyngor Cymuned Llanllechid

Cyngor Cymuned Mechell

Cyngor Tref Porthaethwy

Cyngor Cymuned Moelfre

Cyngor Cymuned Mostyn

Cyngor Tref Prestatyn

Cyngor Cymuned Rhosybol

Cyngor Cymuned Rhuddlan

Cyngor Tref y Rhyl

Cyngor Cymuned Llanelwy

Cyngor Cymuned Tref Alaw

Cyngor Cymuned Trefnant

Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor

Cyngor Cymuned Tremerichion, Cwm a Waen

Cyngor Cymuned y Felinheli

Cyngor Cymuned Ysgeifiog

**Rhanddeiliaid eraill**

Coed Actif

Age Connects Cymru

Age UK Gwynedd

Uchelgais Gogledd Cymru

Harbwr Amlwch

Cymdeithas Twristiaeth Ynys Môn

Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn

Prifysgol Bangor

Bionet

Braddan Parish Commissioners

Bro Môn

Busnes yn y Gymuned Cymru

Cadw

Harbwr Caernarfon

Ysgol Fusnes Cambria

CBI Cymru

Harbwr Cemaes

Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas)

Yr Awdurdod Hedfan Sifil

Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd a Chonwy

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

Treftadaeth Bae Colwyn

Dewch i Gymru (Cymdeithas Twristiaeth Sir y Fflint)

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) Cymru

Grŵp Lleol Cyfeillion y Ddaear Conwy

Gwasanaeth Ieuenctid Conwy

Creu Conwy

Crogga

Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych

Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych

Adran yr Amgylchedd, Bwyd ac Amaethyddiaeth, Llywodraeth Ynys Manaw

Yr Adran Seilwaith, Llywodraeth Ynys Manaw

Cyngor Bwrdeistref Douglas

Asiantaeth yr Amgylchedd

Ffederasiwn y Busnesau Bach - Cymru

Cynghrair Masnach Deg Sir y Fflint

Sir y Fflint mewn Busnes

Darpariaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint

Cyfeillion Llwybr Arfordir Ynys Môn

Rhwydwaith Busnes Gwynedd Cyfyngedig

Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

Treftadaeth – Aura Cymru

Awdurdod Porthladd Caergybi

Clwb Hwylio Caergybi

Rhwydwaith Busnes Ynys Manaw

Siambr Fasnach Ynys Manaw

Senedd Ynys Manaw (Tynwald)

Cwmni Paced Stêm Ynys Manaw

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

Cymdeithas Lletygarwch Llandudno

Clwb Hwylio Llanfairfechan

Manx Birdlife

Manx National Heritage

Cyfleustodau Ynys Manaw

Ymddiriedolaeth Natur Ynys Manaw

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

Cynghrair Afon Mersi

Mezeron Ltd

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Doc Mostyn

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Natural England

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cymdeithas Cynghorau Lleol
Gogledd a Chanolbarth Cymru

Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Ørsted (Burbo Bank/Burbo Bank Extension)

Porth Penrhyn

Comisiynwyr Port St Mary

Clwb Hwylio Prestatyn

Clwb Hwylio'r Rhyl

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
(RSPB)

RSPB Cymru

RSPB Gogledd Lloegr

RSPB Ynys Lawd

Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol

RWE

Pwyllgor Moroedd Tiriogaethol,
Llywodraeth Ynys Manaw

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

FDF (Fforwm Anabledd Sir y Fflint gynt)

Siambr Fasnach a Thwristiaeth Llangollen

Theatr y Pafiliwn

Cydffederasiwn Masnach y DU

Y Gwasanaeth Ieuenctid

Trinity House

Dewch i Gonwy

Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer
a Gogledd Cymru

Partners in UK offshore wind




Mwy o wybodaeth ar wefan ein prosiect:
**www.morganandmona.com**
neu drwy ddefnyddio y cod QR hwn

**info@monaoffshorewind.com**

**Rhadbost MONA**

**0800 860 6263**